OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 2455 (Cy.238)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Bwyd (Tsilis Poeth a Chynhyrchion Tsilis Poeth) (Rheolaeth Frys) (Cymru) 2003

Wedi'u gwneud - -	*24 Medi 2003*
Yn dod i rym - -	*s25 Medi 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi'i ddynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan yr adran honno, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Teitl, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Bwyd (Tsilis Poeth a Chynhyrchion Tsilis Poeth) (Rheolaeth Frys) (Cymru) 2003 a deuant i rym ar 25 Medi 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn —

nid yw "awdurdod bwyd" ("*food authority*") yn cynnwys awdurdod iechyd porthladd;

ystyr "awdurdod iechyd porthladd" ("*port health authority*") mewn perthynas ag unrhyw ardal iechyd porthladd a sefydlwyd drwy orchymyn o dan adran 2(3) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**3**), yw awdurdod iechyd porthladd ar gyfer yr ardal honno a sefydlwyd drwy orchymyn o dan adran 2(4) o'r Ddeddf honno;

mae i "cylchrediad rhydd" yr un ystyr â "*free circulation*" yn Erthygl 23.2, o'i darllen ynghyd ag Erthygl 24, o'r Cytuniad a sefydlodd y Gymuned Ewropeaidd;

ystyr "y Ddeddf ("*the Act*") yw Deddf Diogelwch Bwyd 1990(**4**) ac eithrio lle mae'r cyd-destun yn mynnu fel arall ac yn ddarostyngedig i baragraff (2), mae i unrhyw ymadrodd a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn ac yn y Ddeddf yr ystyr sydd i'r term Saesneg cyfatebol yn y Ddeddf;

(**1**) O.S. 1999/2788.
(**2**) 1972 p. 68.
(**3**) 1984 p.22.
(**4**) 1990 p. 16.

ystyr "Penderfyniad y Comisiwn" ("*the Commission Decision*") yw Penderfyniad y Comisiwn 2003/460/EC ar fesurau brys ynghylch tsilis poeth a chynhyrchion tsilis poeth(**5**) fel y'i cywirwyd drwy gywiriad a gyhoeddwyd ar 25 Gorffennaf 2003(**6**);

ystyr "tsilis poeth a chyhyrchion tsilis poeth" ("*hot chilli and hot chilli products*") yw ffrwythau'r genws Capsicum, sydd wedi'u sychu a'u gwasgu neu wedi'u malu ac sy'n dod o dan god CN 0904 20 30 neu 0904 20 90; ac

ystyr "tsilis poeth a chynhyrchion tsilis poeth a reolir" ("*controlled hot chilli and hot chilli products*") yw tsilis a chynhyrchion tsilis poeth sydd wedi'u bwriadu ar gyfer eu bwyta gan bobl.

(2) Mae i unrhyw derm a ddefnyddir yn y diffiniad o "tsilis poeth a chynhyrchion tsilis poeth" ym mharagraff (1) yr un ystyr â'r term cyfatebol ym Mhenderfyniad y Comisiwn.

Gwahardd mewnforio

3.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), ni chaiff neb fewnforio i Gymru unrhyw dsilis poeth a chynhyrchion tsilis poeth oni bai —

(a) bod yr amodau a bennir yn Erthyglau 2.1 a 2.3, 3.1 a 3.4 o Benderfyniad y Comisiwn wedi'u bodloni mewn perthynas â'r cynhyrchion hynny; a

(b) bod y costau sy'n deillio o'u dadansoddi a'u storio wedi'u pennu yn Erthygl 6 o'r Penderfyniad wedi'u talu.

(2) Rhaid peidio â deall unrhyw beth ym mharagraff (1) fel petai'n gwahardd mewnforio i Gymru o Aelod-wladwriaeth unrhyw dsilis poeth a chynhyrchion tsilis poeth a reolir ac sydd mewn cylchrediad rhydd yn yr Aelod-wladwriaeth honno.

(3) Euog o dramgwydd yw unrhyw berson sy'n mynd yn groes i baragraff (1), gan wybod hynny, ac mae'n agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 5 ar y raddfa safonol neu i garchar am dymor nad yw'n hwy na thri mis.

(4) At ddibenion penderfynu a yw person yn euog neu beidio o dramgwydd sy'n cynnwys mynd yn groes i baragraff (3), rhaid rhagdybio, oni phrofir i'r gwrthwyneb, mai tsilis poeth a chynhyrchion tsilis poeth a reolir yw unrhyw dsilis poeth a chynhyrchion tsilis poeth.

Gorfodi

4.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), dyletswydd pob awdurdod iechyd porthladd fydd gweithredu a gorfodi'r Rheoliadau hyn o fewn ei ardal.

(2) Mewn perthynas ag unrhyw le nad yw o fewn ardal awdurdod iechyd porthladd, rhaid i'r awdurdod bwyd ar gyfer yr ardal y mae'r lle hwnnw ynddi weithredu a gorfodi'r Rheoliadau hyn.

(3) At ddibenion arfer y ddyletswydd y cyfeirir ati ym mharagraff (1) neu, yn ôl fel y digwydd, (2), rhaid i swyddog awdurdodedig yr awdurdod o dan sylw—

(a) sicrhau y glynir wrth y gofynion y cyfeirir atynt ym mharagraff (4); a

(b) bod â'r un pwerau mynediad ag a roddir i swyddog awdurdodedig awdurdod gorfodi o dan adran 32 o'r Ddeddf at ddibenion sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf neu Reoliadau neu Orchmynion a wnaed o dan y Ddeddf.

(4) Y gofynion yw'r gofynion a bennir yn —

(a) Erthygl 2.1 a 2.2 o Benderfyniad y Comisiwn (sy'n ymwneud â gwirio'r dogfennau sy'n berthnasol i lwythau o dsilis poeth a chynhyrchion tsilis poeth a reolir);

(**5**) OJ Rhif L154, 21.6.2003, t.114.
(**6**) OJ Rhif L186, 25.7.2003, t.47.